

Derbyn Fel Claf Mewnol

Pob arbenigwr gofal iechyd - e.e. bydwagedd, ymwelwyr iechyd a meddygon teulu i fonitro iechyd meddwl ac i fod yn ymwybodol o **ARWYDDION FFLAGIAU COCH**:

Arsylwi am:

- Newidiadau sydyn yng nghyflwr meddyliol/symptomau newydd yn cael eu hamlygu
- Mynegiannau o fod eisiau gwneud niwed iddi hi ei hun/baban neu feddyliau hunanladdol

Lleoliad Cleifion Mewnol Mamolaeth

Lleoliad cymunedol

Angen asesiad iechyd meddwl brys cyn pen 4 awr:

O fewn oriau gwaith arferol: Cysylltu â'r Tîm Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol, Gwasanaeth Cyswllt, Tîm Argyfwng (CRHT) neu Gydlynnydd Gofal yn y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol/CAMHs (os yw'r fenyw yn hysbys i'r tîm)

NEU

Y tu allan i oriau: Gwasanaeth cyswllt

Angen asesiad iechyd meddwl brys cyn pen 4 awr:

O fewn oriau gwaith arferol: Cysylltu â'r Meddyg Teulu, Tîm Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol, Gwasanaeth Cyswllt, Tîm Argyfwng (CRHT) neu Gydlynnydd Gofal yn y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol/CAMHs (os yw'r fenyw yn hysbys i'r tîm)

NEU

Out of hours: Gwasanaeth Meddyg Teulu Ar Alw neu wasanaeth Cyswllt drwy'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys

Mae diogelwch y baban ac unrhyw blant eraill yn hollbwysig a rhaid asesu ei hanghenion/anghenion yn syth cyn atgyfeirio at unrhyw dîm/gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol.

Asesiad Brys wedi'i Gwblhau a derbyniad fel claf mewnol yn ofynnol.

Wedi cysylltu â chydweithwyr Uned Gobaith ac wedi cael trafodaeth aml-ddisgyblaethol. Os nad oes gwelyau ar gael yng Nghymru, defnyddio WebBeds i leoli unrhyw welyau eraill sydd ar gael ledled Lloegr a chysylltu gyda Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru am gyllid.

Atgyfeiriad wedi'i dderbyn, gwaith papur wedi'i gwblhau a'r trefniadau derbyn wedi'u cytuno.

Mae'n bosibl y bydd menywod sydd â salwch meddwl cymedrol i ddifrifol sy'n ansefydlog ar hyn o bryd angen derbyniad proffylactig. Angen cysylltu â chydweithwyr yn Uned Gobaith a chwblhau trafodaeth aml-ddisgyblaethol.

Os nad oes gwelyau ar gael/menyw yn gwrthod neu wrtharwydd arall i dderbyn fel claf mewnol dan Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol, ystyriwch:

- Atgyfeirio at y Tîm Datrys Argyfwng a Thriniaeth Gartref (CRHTT)
- Derbyn i uned seiciatrig oedolion

Dylai pob menyw sydd angen ei derbyn i Uned Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol yn hwyr mewn beichiogrwydd neu'r cyfnod ôl-enedigol gael ei derbyn gyda'i baban oni bai bod rhesymau penodol dros beidio â gwneud hynny.

Os nad oes gwelyau ar gael, dylid trosglwyddo'r fenyw i Uned Cleifion Mewnol Amenedigol Arbenigol cyn gynted â phosibl.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Rhwydwaith Iechyd
Meddwl Amenedigol
Perinatal Mental
Health Network

#AgorDrysaulFaguPlant
PNMHnetwork@wales.nhs.wales